

Symud i Mewn

Yr hyn y bydd angen arnoch chi ei wybod

Mae symud i mewn i gartref newydd yn adeg gyffrous ond mae llawer o bethau i'w meddwl amdanynt. Peidiwch â phoeni rydym ni yma i'ch helpu.

Yr hyn y gallwch ei ddisgwyl

Bydd eich Swyddog Tai wrth law i'ch helpu

Mae eich Swyddog Tai yma i'ch helpu os bydd gennych chi unrhyw ymholiadau. Bydd yn ymweld â chi o fewn y tair wythnos gyntaf ar ôl i chi symud i mewn i sicrhau eich bod yn ymgartrefu'n iawn. Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau cyn yr ymweliad hwn ffoniwch eich Swyddog Tai - os nad yw ei fanylion cyswllt gyda chi yna ewch i'n gwefan

Bydd eich cartref yn lân, yn ddiogel ac ni fydd angen unrhyw atgyweiriadau sylweddol

Mae ein Safon Barod i'w Osod sydd wedi'i chynnwys yn ein pecyn gosodiadau yn nodi'r hyn y gallwch chi ei ddisgwyl yn eich cartref newydd ar yr adeg y byddwch chi'n symud i mewn. Ffoniwch ni ar 0800 085 7843 os ydych chi'n meddwl nid yw'ch cartref yn diwallu'r safonau hyn.

Yr hyn y bydd angen arnoch chi ei wneud

Trefnu eich nwy a'ch trydan

Mae trefnu hyn yn hawdd ond mae angen arnoch chi ei wneud cyn y gallwn ni gynnal gwiriad diogelwch nwy. Os na chaiff hyn ei wneud ni fydd gan y cartref gyflenwad pan fyddwch chi'n symud i mewn.

CAM 1: Dylech ddarganfod pwy oedd cyflenwr nwy a/neu drydan blaenorol eich eiddo.

Y rhan fwyaf o'r amser ein partneriaid SSE fydd yn gyfrifol am y cyflenwad. Er bydd adegau pan nad ydym wedi cael digon o amser i drosglwyddo'r cyflenwad iddynt ond byddwn yn eich cynghori am y darparwr presennol.

Nwy: Ffoniwch y Llinell Gymorth ar gyfer mesuryddion 0870 608 1562 (Cost y galwad fydd 7c y funud yn ogystal â ffi fynediad eich rhwydwaith)

Trydan: Ffoniwch Western Power ar Gwasanaethau MPAS ar 0845 601 5972

CAM 2: Pan fyddwch yn gwybod pwy yw cyflenwr y gwasanaethau dylech chi ffonio'r cwmni a rhoi eich manylion a darlenniadau'r mesuryddion iddynt. Os oes mesurydd clyfar yn eich eiddo bydd angen i chi gysylltu â'ch cyflenwr presennol i roi'r mesurydd ar waith trwy ofyn am apwyntiad brys ar yr un diwrnod.

Os oes cerdyn nwy neu fesurydd ag allwedd efallai y bydd yn cymryd yn hirach i'ch cyflenwad gael ei drefnu. Os yw'ch mesuryddion rhagdalau mewn dyled gallwch chi ddefnyddio eich cerdyn trydan a/neu eich cerdyn nwy dros dro a roddwyd i chi gan eich Swyddog Tai i brynu trydan a nwy nes bydd eich cerdyn trydan a/neu nwy newydd yn cyrraedd.

Cofiwch efallai y bydd modd i chi arbed arian trwy newid i gyflenwr ynni arall. Os byddwch chi'n penderfynu newid cyflenwr dylech chi sicrhau bod modd i'ch cyflenwr newydd gysylltu eich cyflenwad cyn i chi symud i mewn.

CAM 3: Ar ôl i chi gwblhau cam 1 a 2, ffoniwch ni a byddwn yn anfon gosodwr nwy i gynnal y gwiriadau diogelwch a galluogi'r cyflenwad nwy.

Rhowch greddyd ar eich mesurydd rhagdalau

Os oes gan eich cartref fesurydd rhagdalau byddwch chi'n derbyn allwedd trydan a cherdyn nwy dros dro gan eich Swyddog Tai a bydd yn rhaid i chi ddefnyddio'r rhain i brynu trydan a nwy nes bydd eich cerdyn trydan a/neu nwy newydd yn cyrraedd. Os na fyddwch chi'n derbyn y rhain gallai achosi oedi o ran symud i mewn oherwydd bod yn rhaid i'r ddau fesurydd (os ydynt yn rhai rhagdalau) fod mewn credyd er mwyn i'r gwiriad diogelwch nwy gael ei gynnal.

Yr hyn y byddwn ni'n ei wneud

Cynnal gwiriad diogelwch nwy pan fydd y nwy a'r trydan wedi'u cysylltu

Os oes gennych chi fesurydd rhagdalau ac nid oes unrhyw greddyd ar gerdyn/allwedd y mesurydd i gynnal y gwiriad diogelwch nwy efallai y byddwn yn ailgodi tâl arnoch chi amdano.

Yn ystod y gaeaf fel arfer caiff systemau unrhyw gartrefi gwag eu gwagio a bydd angen ail-lenwi'r system. Peidiwch â defnyddio'r system gwres canolog na rhedeg y dŵr nes bod y gwiriad diogelwch nwy wedi'i gynnal oherwydd gallai hyn arwain at lifogydd.

Byddwn ni'n cynnal ein peiriannau ni ond bydd angen arnoch chi gynnal a chadw eich rhai chi

Caiff y system gwres canolog ei gwirio a'i phrofi gan eich contractwr nwy i sicrhau ei bod yn gweithio'n ddiogel, yn gywir ac yn diwallu gofynion rheoleiddio cyfredol.

Sylwer mai chi sy'n gyfrifol am gynnal a chadw ac atgyweirio eich peiriannau nwy eich hun megis y ffwrn.

Rhestr wirio ddefnyddiol

Dywedwch wrth bobl eich bod wedi symud

Gorau po gyntaf y byddwch yn gwneud hyn. Dyma restr o rai o'r bobl bwysig y dylech chi eu hysbysu eich bod wedi symud.

Ariannol

Banc neu Gymdeithas
Adeiladu
Cwmnïau yswiriant – Car,
Cartref ayyb.
Cardiau credyd
Cwmnïau rhentu/llog
Cwmnïau pensiwn
Cynilon/bondiau
Eich cyflogwr
Cwmnïau catalog
Yr Asiantaeth Fudd-daliadau

Symudol

Gwasanaethau cebl/ lloeren/
rhyngwyd
Trwydded deledu
Dŵr
Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr
a Cherbydau (DVLA)
Iechyd
Meddyg
Deintydd
Optegydd
Gofalwyr yn y cartref
Ymwelwyr iechyd
Gweithwyr Cymdeithasol

Cyffredinol

Y Cyngor
Treth y Cyngor
Y Gofrestr Etholiadol
Llinell ffôn ddaearol

Eraill

Ysgol/Coleg/Meithrinfa
Llyfrgell